# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD LLUN, 9 CHWEFROR 2026

**Presenoldeb:** Cynghorydd Elin Hywel (Cadeirydd)
Cynghorydd John Pughe Roberts (Is gadeirydd)

**Cynghorwyr:**

Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:**

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

H Eifion Jones (aelod o’r Bwrdd Pensiwn) - arsylwi

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan John Brynmor Hughes, R Medwyn Hughes a Geraint Parry

Dymunwyd gwellhad buan i’r Cyng. John Brynmor Hughes

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i’w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi

## 4. COFNODION

Bu i’r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO

Wrth gyflwyno’r adroddiad, nododd y Rheolwr Buddsoddi ei bod hi’n ofyn statudol i adolygu'r Datganiad Strategaeth Cyllido pob tair blynedd, a hynny fel arfer ar ôl y prisiad teirblynyddol (oni bai bod newid sylweddol wedi bod yn amodau’r farchnad). Eglurwyd mai pwrpas y ddogfen yw adlewyrchu ffactorau'r prisiad, gan gydbwyso fforddiadwyedd y cyflogwyr gydag amcanion hylifedd hir dymor y

gronfa.

Adroddwyd mai sail y ddogfen yw'r prisiad actiwaraidd ac fe baratowyd y prisiad actiwaraidd gan ddefnyddio rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt gyda'r actiwari. Cyflwynwyd y rhagdybiaethau hyn i'r Pwyllgor Pensiynau i'w cymeradwyo yn Medi 2025, gyda'r cyflogwyr wedi derbyn cyflwyniad gan yr actiwari ym mis Hydref 2025. Amlygwyd bod y canlyniadau yn bositif iawn gyda lefel cyllido'r Gronfa gyfan yn 166%, gyda'r cyflogwyr yn cael gostyngiad yn eu cyfraniadau o fis Ebrill 2026 ymlaen.
Mynegwyd bod y ddogfen drafft yn cael ei rhannu gyda holl gyflogwr y Gronfa am ymgynghoriad cyn cael ei mabwysiadu'n ffurfiol ym Mhwyllgor Mawrth 2026. Er yn derbyn bod y datganiad yn faith, cafodd ei baratoi mewn ymgynghoriad manwl gyda Hymans gyda mewnbwn gan swyddogion y Gronfa. Cyfeiriwyd at y polisïau unigol sy'n bwydo i mewn i'r ddogfen, sy'n golygu petai angen addasu un o'r polisïau yn y dyfodol, mai dim ond newid y polisi unigol fydd ei angen ac nid y Strategaeth yn ei chyfanrwydd.

Ategwyd bod y Strategaeth yn gyson gyda'r Strategaethau blaenorol, ond bod un newid yn 'Polisi Ar Adael y Gronfa'. Yn hanesyddol, pe byddai'r cyflogwr yn dewis gadael y Gronfa, byddai angen cyfrifo credyd gadael, sef y swm sy'n ddyledus unai i'r Gronfa, neu allan o'r Gronfa, gyda'r cyfrifiad yma yn seiliedig ar ddychweliadau 'gilts' ac felly yn agored i symudiadau'r farchnad - y ffigwr yn gallu amrywio'n sylweddol yn ddibynnol ar amodau'r farchnad ar y pryd. Gyda'r cyfrifiad hefyd yn seiliedig ar un ffigwr ar bwynt mewn amser, golygai hyn bod y canlyniadau'n gallu bod yn gyfnewidiol (volatile), ac nid yw sail y giltiau yn adlewyrchu'r gwir gan fod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn amryw o asedau. O ganlyniad, awgrymodd yr actiwari y dylid newid i sail risg sef defnyddio cyfradd disgownt sy'n seiliedig ar ddyraniad asedau'r Gronfa, ond sydd hefyd yn cynnwys 'coridor' er mwyn sicrhau nad oes ffactorau marchnad sylweddol ar un diwrnod yn effeithio'r prisiad. Ystyriwyd y byddai hyn yn rhoi gwell syniad i'r cyflogwyr o beth fydd cost gadael y Gronfa, a hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Gronfa na fydd cyflogwyr yn gadael ar adeg anfanteisiol - yr addasiad felly yn decach i bawb.

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith adolygu.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

## 6. CYMERADWYO CYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i gyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–2027.

Adroddwyd bod y gyllideb bellach yn cael ei chymeradwyo yn flynyddol gan y Pwyllgor Pensiynau. Cyfeiriwyd at gyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau sydd â 25 aelod o staff cyflogedig ynghyd â chostau systemau, argraffu, ac ad-daliadau canolog. Tynnwyd sylw at y cyflenwadau a'r gwasanaethau gan amlygu bod gofyn cynyddu'r gyllideb i £185,500, a hynny yn bennaf oherwydd cynnydd yn y costau postio, a'r costau meddalwedd - costau na ellid eu hosgoi yn anffodus.

Yng nghyd-destun cyllideb yr Uned Buddsoddi, nodwyd bod mwyafrif o'u

dyletswyddau yn waith Cronfa Bensiwn ond eu bod hefyd yn gyfrifol am Reolaeth Trysorlys Cyngor Gwynedd. Yn ychwanegol, bydd costau Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC), rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr o dan gyfrifoldeb y Rheolwr Buddsoddi; bydd y costau hyn yn amrywio ac yn ddibynnol ar berfformiad buddsoddiadau a'r gwaith sydd angen ei gyflawni gan yr ymgynghorwyr ar Bartneriaeth. Wrth drosglwyddo a buddsoddi gyda PPC IM Co bydd angen cadw llygaid barcud ar y costau dros y cyfnod nesaf, ac felly ystyriwyd nad oedd diben gosod cyllideb eleni, ond yn rhywbeth fydd angen sylw yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Elfen arall na ellid ei chynnwys yn y gyllideb oedd newidiadau fydd angen eu gweithredu fel rhan o reoliadau 'Addas i'r Dyfodol' lle bydd gofyn statudol i benodi Prif Swyddog y Gronfa, unigolyn annibynnol i'r Pwyllgor, ynghyd a chostau gofynion llywodraethu a hyfforddiant ychwanegol. Nodwyd, fel y bydd gofynion yn codi a mwy o wybodaeth am yr elfennau hyn yn dod i law, yna yn debygol, bydd angen cyflwyno cyllideb ategol. Bydd angen sefydlu strwythur newydd a phenderfynu ar swydd ddisgrifiadau erbyn y 1af o Hydref 2026, er nad oedd canllawiau terfynol wedi eu rhyddhau. Ategwyd, yng Ngwynedd, bod y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi eisoes yn cyfarfod gyda'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i drafod y trefniadau cyfansoddiadol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwdau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr addasiadau yn anorfod
- Bod angen dechrau trafodaethau mor fuan â phosib, am strwythur a swyddogaethau'r ddwy uned mewn ymateb i reoliadau 'Addas i'r Dyfodol'
- Gan ragdybio na fydd amserlen Addas i'r Dyfodol yn llithro

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rôl yr unigolyn annibynnol ar y Pwyllgor, nodwyd y bydd yr unigolyn yma gyda chymwysterau penodol, fydd yn unol â gofynion y Ddeddf, yn rhoi cyngor, rhannu arbenigedd a rhoi arweiniad a throsolwg ar yr elfennau buddsoddi a gweinyddol. Ategwyd na fyddai rôl Aelodau'r Pwyllgor yn newid na rôl yr Aelodau Cyfetholedig.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn y wybodaeth a chymeradwyo cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27**
- **Argymell dechrau trafodaethau mor fuan â phosib, am strwythur a swyddogaethau'r ddwy uned mewn ymateb i reoliadau 'Addas i'r Dyfodol'**

## 7. ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn amcanion ymgynghorwyr y Gronfa, Hymans Robertson a hynny i wneud yn siŵr bod y gwaith sydd yn cael ei gyflawni ganddynt yn cyfateb ag amcanion strategol y Gronfa. Ategwyd bod yr ymarfer yn cael ei ystyried fel llywodraethu da.

Adroddwyd bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur gyda'r

ymgynghorwyr yn darparu arweiniad ar adolygu'r dyraniad asedau strategol yn sgil y prisiad teirblynyddol, darparu gwybodaeth ar gyfalaf naturiol a chyngor ar fuddsoddiadau newydd Black Rock a marchnadoedd preifat oedd ar gael drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Ategwyd bod Hymans hefyd wedi cyd weithio gyda'r swyddogion wrth adolygu polisïau mewnol a sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw reoliadau pensiwn perthnasol.

Er bod Hymans yn darparu gwybodaeth a phapurau o safon uchel, nid ydynt bob amser yn cyrraedd y swyddogion mewn modd amserol ar gyfer cyfarfodydd a Phwyllgorau, ac felly yr adborth yma wedi ei gyfleu iddynt yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd at yr amcanion ar gyfer 2026 gan nodi eu bod yn parhau yn debyg i'r amcanion cyfredol, ond bod elfennau o'r gwaith ychwanegol, o gydweithio gyda chwmni buddsoddi newydd PPC yn 2026, wedi ei gynnwys.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNIAD**

- **Derbyn a nodi cynnydd ar amcanion 2025**

## 8. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC ynghyd a phenderfyniadau cyfarfod mis Rhagfyr o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLl - corff sy'n gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth gyda Chadeirydd pob cronfa yn eistedd arno). Cyflwynwyd diweddariad ar y materion arferol o adolygu'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025/26, adolygiad o rai o'r risgiau o fewn yr adran Buddsoddi a diweddaru'r polisïau canlynol: Gwrthdaro buddiannau a'r weithdrefn Polisi, a Polisi Hyfforddi.

Cyfeiriwyd at fanylder gwaith y gweithredwr dros y cyfnod ac at amodau'r farchnad oedd wedi cael eu monitro ganddynt. Tynnwyd sylw at ddadansoddiad a pherfformiad y cronfeydd gan amlygu bod perfformiad wedi bod yn gryf gydag ecwiti byd-eang a marchnadoedd incwm sefydlog yn codi yn y cyfnod.

Adroddwyd bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi derbyn nifer o rybuddion o gynnig gan Gynghorau Lleol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Gwynedd (Cyngor Llawn, Hydref 2025) ar faterion buddsoddi cyfrifol, moesegol a chynaliadwy. Nodwyd bod y cynigion wedi derbyn ystyriaeth, ac yng ngoleuni'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â pholisi gwaharddiadau PPC, cytunwyd y byddai ymateb yn cael ei gyhoeddi i bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ynghyd a rhannu polisi diwygiedig pan fydd wedi ei gymeradwyo gan y CBLl ym mis Mawrth 2026.

Amlygwyd bod Prosiect yr Wyddfa yn datblygu'n gyflym er mwyn sefydlu'r cwmni buddsoddi (PPC IM Co) gyda chais Cofrestr Gwasanaethau Ariannol (Financial Conduct Authority - FCA), wedi'i gyflwyno a recriwtio ac ymgysylltu rheolaidd yn digwydd. Ategwyd bod swyddogion ac aelodau'r CBLl wedi bod yn trafod sefydlu cytundebau rhwng y cwmni buddsoddi â'r wyth Awdurdod Cyfansoddol fel cleientiaid a chyfranddalwyr. Nodwyd y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i rannu gwybodaeth benodol ar y datblygiadau a'r cytundebau perthnasol gyda'r Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiwn cyn i'r Pwyllgor Pensiynau eu cymeradwyo'n ffurfiol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol
- Bod y Polisi Gwaharddiadau gan PPC yn gam positif ymlaen
- Y Polisi yn fodd o sicrhau eglurder ac i'r cyhoedd ddeall bwriad y Bartneriaeth
- Bod y Cadeirydd wedi ceisio barn gyfreithiol annibynnol ar yr adroddiadau / cytundebau er mwyn rhoi gwarchodaeth i'r Pwyllgor eu bod yn gwneud penderfyniad ar safbwynt Cronfa Pensiwn Gwynedd yn ogystal â PPC

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r rhybuddion o gynnig, cadarnhawyd bod ymateb yn cael ei baratoi gan PPC i'w gyhoeddi gan bob Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Croesawu datblygiad Polisi Gwaharddiadau PPC**

## 9. DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Amlygodd y Rheolwr Buddosddi bod yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar feysydd buddsoddi cyfrifol o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. Eglurwyd bod swyddog o Hymans Robertson yn gweithio yn barhaus yn y maes yma, gyda swyddogion o'r 8 cronfa leol yn mynychu gweithgor buddsoddi cyfrifol yn rheolaidd i drafod y gwaith.

Tynnwyd sylw at y gwaith oedd wedi ei weithredu yn ddiweddar, oedd yn cynnwys:
- Esblygu mandadau Black Rock i greu cronfa buddsoddi unigryw i ofynion cronfeydd Cymru gyda threfn pleidleisio pwrpasol i Gymru.
- Cod Stiwardiaeth: Partneriaeth Pensiwn Cymru unwaith eto wedi ei gadarnhau fel llofnodwr cod stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol (Financial Recording Council – FRC), sydd yn newyddion da.
- Bod adroddiadau effaith hinsawdd ar lefel cronfa a lefel cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu fydd yn ddefnyddiol i ddangos ystadegau cymharol y gronfa.
- adolygiadau o'r is-gronfeydd sy'n amlygu bod llawer iawn o waith wedi'i wneud o fewn yr is-gronfeydd i adrodd ar gryfderau ESG ac adroddiadau stiwardiaeth.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:
- Bod y perfformiad yn well na'r meincnod
- Bod y wybodaeth yn ddefnyddiol
- Bod angen diffiniadau cliriach i weithgaredd Cronfa Twf Byd-eang, yn enwedig o dan y testun 'metrigau hinsawdd'

- O ran buddsoddi yn lleol i Wynedd, bod angen cefnogaeth pobl leol a pheidio mynd yn erbyn yr hyn maent yn ddymuno. Rhaid bod yn effro'n lleol, a chraffu sut y bydd penderfyniadau PPC ar fuddsoddi yn cael eu gwneud - rhaid sicrhau bod y buddsoddiadau yn gynaliadwy, yn gyfrifol ac o lês i Wynedd
- Bod angen sicrhau hyder yn y buddsoddiadau, monitro perfformiad a llywodraethu

- Pryder y bydd rôl a rheolaeth y Pwyllgor ar fuddsoddiadau yn mynd yn wanach

  Mewn ymateb i sylw bod angen buddsoddi'n gyfrifol ac osgoi buddsoddiad mewn materion sydd yn creu problemau mewn gwledydd eraill o'r byd (e.e., mwyngloddio ar gyfer batris AI - amodau rhai gwledydd sy'n mwyngloddio efallai ddim yn gynaliadwy), nodwyd bod goblygiadau buddsoddi yn cael eu monitro yn rheolaidd, ond y bydd y sylw yn cael ei gyfeirio at Hymans.

  Mewn ymateb i sylw bod angen trafodaethau agored gydag Aelodau'r Pwyllgor i sicrhau eu bod yn deall y gofynion ac yn ymwybodol o'r sefyllfa, nododd y Pennaeth Cyllid bod y newidiadau yn rhan o ymateb i ofynion y Llywodraeth ac y bydd popeth yn cael ei wneud i geisio'r gorau i'r Pwyllgor. Ategodd ers i Gronfa Pensiwn Gwynedd ymuno â Phartneriaeth Pensiwn Cymru bod y berthynas gyda Rheolwyr Buddsoddi wedi newid ac nad oedd y Pwyllgor bellach yn cwrdd â hwy yn uniongyrchol. Er hynny, nododd, o'i ddealltwriaeth ef, ac o dan y drefn newydd, bydd Swyddog Buddsoddi Cyfrifol yn mynychu'r Pwyllgorau Pensiwn ac y bydd cyfle i'r Aelodau ei herio a'i holi. Bydd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Pensiynau yn cael ei gynnal ar y 26ain o Chwefror i drafod a sicrhau bod y cytundebau yn gadarn ar gyfer Cronfa Gwynedd yn ei rôl fel cyfranddaliwr a chlient.

  **PENDERFYNIAD**

- **Derbyn a nodi'r wybodaeth**
- **Bod angen diffiniadau cliriach i weithgaredd Cronfa Twf Byd-eang, yn enwedig o dan y testun 'metrigau hinsawdd'**
- **Bod llais a sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth i PPC wneud penderfyniadau ar fuddsoddi - rhaid sicrhau bod y buddsoddiadau yn gynaliadwy, yn gyfrifol ac o les i Wynedd**

## 10. CYNHADLEDD LLYWODRAETHU CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL 2026

Cafwyd adborth ar ffurf adroddiad gan y Cynghorydd Elin Hywel oedd wedi mynychu'r gynhadledd ym mis Ionawr 2026 ar ran y Pwyllgor. Eglurodd bod y gynhadledd wedi bod yn werthfawr, a bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn y sesiynau wedi bod yn dda ac wedi ei gyfathrebu yn effeithiol.

Diolchwyd am y wybodaeth

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r adborth**

## 11. CYNHADLEDD LAPFF 2025

Cafwyd adborth ar ffurf adroddiad gan y Cynghorydd Stephen Churchman oedd wedi mynychu'r gynhadledd gyda 'r Cynghorydd Goronwy Edwards ym mis Rhagfyr 2025 ar ran y Pwyllgor. Eglurodd bod y gynhadledd yn rhoi cyfle i fynychwyr rwydweithio, ehangu gwybodaeth a chadw i fyny â gwaith y sector.

Cyfeiriwyd at gyflwyniad a gafwyd gan Brif Weithredwr Scottish Power lle roedd pwyslais ar fuddsoddi yn gyfrifol gan osgoi buddsoddi mewn materion sy'n creu problemau mewn gwledydd eraill o'r byd (e.e., mwyngloddio ar gyfer batris AI –

nad oedd amodau rhai gwledydd sy'n mwyngloddio yn gynaliadwy).

Nodwyd, mewn byd ansicr, bod angen ystyried effaith gweithredoedd gwleidyddol a rhyfelgar ar fuddsoddiadau gan geisio cadw cydbwysedd rhwng buddsoddi'n foesegol a chael y buddion gorau i bensiynwyr.

Diolchwyd am y wybodaeth

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a nodi'r adborth**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

## 13. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO - ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.07.2025 - 30.09.2025

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn gyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn ar faterion buddsoddi cyfrifol. Cyfeiriwyd at y meysydd oedd wedi cael sylw Robeco yn ystod y chwarter dan sylw a'r wybodaeth oedd yn cynnwys manylion am y nifer gweithgareddau a'r ymgysylltu a gwblhawyd gyda rhai cwmnïau mawr gyda phwysigrwydd rhyngwladol. Nodwyd hefyd mai thema ymgysylltu'r chwarter dan sylw oedd Mwynau Trosiannol (Transition Minerals).

Trafodwyd y wybodaeth

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**
- **Er derbyn ar y cyfan bod y cynnydd yn galonogol yn y gweithgareddau ymgysylltu, mai siomedig oedd gweld cynifer o weithgareddau yn cael eu nodi fel 'aneffeithiol'**

## 14. PERFFORMIAD BUDDSODDI CRONFA BENSIWN GWYNEDD HYD AT 30 MEDI 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar berfformiad y Gronfa dros y chwarter dan sylw. Trafodwyd perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi mewn manylder a'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen i symud tuag at y dyraniad asedau newydd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Trafodwyd y wybodaeth

Sylwdau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod y dychweliadau yn dda
- Yng nghyd-destun Cronfa Bensiwn Gwynedd, bod lle i barhau i gyfarfod gyda Rheolwyr Buddsoddi
- Yng nghyd-destun Dyraniad Asedau Strategol, er yn amlygu'r meincnod bod angen gweld safle'r man cychwyn (starting point) a'r targed.

**PENDERFYNIAD:**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

**CADEIRYDD**